OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 663 (Cy.76)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - 19 Mawrth 2013
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 20 Mawrth 2013
Yn dod i rym - - 18 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 25(7) o Ddeddf Plant 1989(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Ebrill 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio rheoliad 6 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) 1991

2. Yn rheoliad 6(1) o Reoliadau Plant (Llety Diogel) 1991(**2**) (plant sy'n cael eu cadw'n gaeth ac sydd wedi eu remandio y bydd adran 25 o Ddeddf Plant 1989 yn cael effaith mewn perthynas â hwy yn ddarostyngedig i addasiadau)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "children" lle y mae'n ymddangos am y tro cyntaf, mewnosoder "aged 12 or over but under the age of 17";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (a) hepgorer ", and"; ac

(c) hepgorer is-baragraff (b).

(**1**) Mae'r awdurdod cenedlaethol priodol y cyfeirir ato yn adran 25(7) wedi ei ddiffinio gan adran 30A o Ddeddf Plant 1989 fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru.
(**2**) O.S. 1991/1505. Diwygiwyd rheoliad 6 o O.S. 1991/1505 gan O.S. 1992/2117 ac O.S. 2012/2824.